

WILLIAMS, JOHN ('Ioan Madog'; 1812 - 1878), gof a bardd

**Enw:** John Williams  
**Ffugenw:** Ioan Madog  
**Dyddiad geni:** 1812  
**Dyddiad marw:** 1878  
**Rhiant:** Elinor Williams  
**Rhiant:** Richard Williams  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gof a bardd  
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Eisteddfod; Barddoniaeth  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 3 Medi 1812 yn y Bontnewydd, Rhiwabon, lle yr oedd ei rieni, Richard ac Elinor Williams, yn byw ar y pryd. Dychwelasant ymhen tua naw mlynedd i'r cartref gwreiddiol yn Nhremadog. Bu'r mab mewn ysgol am dymor yn Nhremadog, ac, yn ddiweddarach, mewn ysgolion yn sir Ddinbych ac yng Nghaernarfon. Yn y cyfamser dysgodd ddilyn galwedigaeth ei dad. Ymddiddorodd mewn barddoniaeth yn gynnar; dechreuodd gystadlu mewn eisteddfodau, gan ennill yn Aberffraw, 1849, Rhuddlan, 1850, eisteddfod Madog, 1851, etc. Cafodd ei urddo'n fardd yn eisteddfod y Bala, 1836. Dywed '[Cynhaiarn](#)' fod iddo gryn fedr yng ngwneuthur offer haearn i'w defnyddio ar y llongau a adeiledid ym Mhorthmadog. Bu farw 5 Mai 1878 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Ynyscynhaiarn.

## Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908), a'r ffynonellau a enwir yno

*Cymru (O.M.E.)*, x, 229-37

Thomas Jones, *Gwaith Barddonol Ioan Madog ynghyd â Bywgraffiad o'r awdwr, a llythyrau oddiwrth rai o brif feirdd y genedl* (Pwllheli 1881)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Williams](#)

# Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20568748](https://www.wikidata.org/wiki/Q20568748)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

